



Saundersfoot

Teithiau Byr



Saundersfoot

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.2 milltir (5.2 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Saundersfoot 350/351/352/353/333/381/361, Gorsaf rheilffordd 1 milltir i'r gogledd o'r pentref.

Cyfeirnod map: SN134045

Mae yna lawer o straeon am Saundersfoot - mae'n bentref sydd â gorffennol anhygoel...

Chwiliwch am: Cliwiau i'r gorffennol diwydiannol, Incline - arferai fod yn rheilffordd ar gyfer y pwll glo, adeiladwyd y porthladd i allforio glo.

AEr mai cyrchfan wyliau prysur a llewyrchus yw Saundersfoot heddiw, fe ddatblygodd y dref yn wreiddiol o amgylch yr harbwr, a adeiladwyd i allforio glo caled o'r maes glo lleol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae yna dystiolaeth o gloddio am lo o gwmpas Saundersfoot mor gynnar â'r bedwaredd ganrif ar ddeg, er bod y glo yn cael ei forio allan o fannau amrywiol ar hyd yr arfordir. Yn 1829 ffurfiolwyd y trefniant ad-hoc hwn gan y Senedd ac adeiladwyd rheilffordd yn cysylltu pum pwll glo yn ardal Saundersfoot ar hyd yr harbwr, a oedd hefyd yn gweithredu fel ffowndri yn Stepside a Wisemans Bridge.

Caeodd y pwll glo diwethaf yn 1939 a'r rheilffordd hefyd; ar un adeg, roedd y Strand yn Saundersfoot yn arfer bod yn Heol y Rheilffordd ble yr oedd y trac wedi ei osod hyd nes Wisemans Bridge (chwiliwch hefyd am dramffordd Incline). Dynodwyd ardal y Strand, Teras Milford a'r Harbwr yn Ardal Gadwraeth yn 1975 gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac

mae'r dref yn rhan o'r Cynllun Trefi Hanesyddol, sy'n helpu ariannu'r broses o warchod adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol yn y dref.

Cymeriad: Caeau a da byw, strydoedd y pentref, rhwng Neuadd Coppet a'r porthladd, llwybr arall ar hyd y traeth pan fydd y llanw'n isel.

